For families with disabled children
I deuluoedd gyda phlant anabl

## Beth yw Lwfans Byw i'r Anabl ('y Lwfans' neu DLA) i blant?

Dyma'r prif fath o gymorth neu fudd-dal gan y llywodraeth y gallwch chi ei gael os ydych chi'n gofalu am blentyn anabl o dan 16 oed.

Mae'n cael ei dalu'n uniongyrchol i'ch cyfrif banc a gall eich helpu gyda chostau ychwanegol i ofalu am eich plentyn anabl.

## Pwy all gael y Lwfans?

Gallwch wneud cais am y Lwfans os oes gan eich plentyn anabledd, cyflwr iechyd neu salwch a'i fod o dan 16 oed.

Mae'n bwysig gwybod hyn:

- Nid oes angen i chi aros am ddiagnosis i'ch plentyn cyn gwneud cais am y Lwfans.
- Nid yw'r Lwfans ar gyfer plant ag anableddau cymhleth yn unig. Gallwch hawlio'r Lwfans os oes gan eich plentyn anawsterau dysgu, anhwylderau ar y sbectrwm awtistig, cyflyrau emosiynol ac ymddygiadol neu anableddau corfforol.
- Gallwch hawlio'r Lwfans ar gyfer eich plentyn o dri mis oed, neu o enedigaeth os oes gan eich plentyn salwch terfynol.
- Gallwch hawlio'r Lwfans hyd yn oed os ydych chi'n gweithio, bod gennych gynilion neu arian arall yn dod i mewn.
- Dim ond statws mewnfudo eich plentyn sy'n cael ei ystyried pan fyddwch chi'n gwneud cais am y Lwfans. Nid yw eich statws mewnfudo chi fel rhiant neu ofalwr yn cael ei ystyried.
- Ni fydd y Lwfans yn lleihau eich budd-daliadau eraill. Mae'n cael ei dalu ar ben budd-daliadau eraill rydych chi'n eu cael fel budd-dal tai, credydau treth neu Gredyd Cynhwysol er enghraifft.

## Ar beth alla' i wario taliadau'r Lwfans?

Nid oes unrhyw reolau ynglŷn â beth allwch chi wario'r Lwfans yma arno. Chi sydd i benderfynu cyn belled â'i fod yn cael ei ddefnyddio er budd eich plentyn anabl.

Gallwch ei ddefnyddio i helpu i dalu am gostau ychwanegol i ofalu am blentyn anabl fel costau gwresogi neu fwyd ychwanegol neu deganau arbenigol a chynhyrchion eraill.

**Pam bod y Lwfans yn bwysig?**

Mae gofalu am blentyn ag anghenion ychwanegol yn gallu costio llawer mwy, felly gall taliadau'r Lwfans wneud gwahaniaeth enfawr i'ch teulu.

Gall y Lwfans hefyd eich helpu i gael mathau eraill o gymorth ariannol a budd-daliadau.

**Beth sydd angen i mi ei wneud i gael y Lwfans ar gyfer fy mhlentyn?**

Mae angen i chi lenwi ffurflen gais.

Fe gewch y ffurflen ar wefan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP).

Ond mae'n well ffonio DWP ar 0800 121 4600 a gofyn am i'r ffurflen gael ei phostio atoch. Yna, bydd y ffurflen yn cael ei stampio gyda dyddiad eich galwad ffôn, a bydd unrhyw Lwfans a gewch chi yn cael ei dalu o'r dyddiad hwnnw. Mae hyn yn ddefnyddiol oherwydd bod y ffurflen yn hir a gall gymryd amser i'w llenwi.

Os gewch chi drafferth yn llenwi'r ffurflen, gallwch ffonio llinell gymorth Contact ar 0808 808 3555 a gallwn geisio eich rhoi chi mewn cysylltiad â rhywun yn agos atoch all helpu.

Ewch i wefan Contact am fwy o wybodaeth am y Lwfans, ac am awgrymiadau ar gyfer ateb yr holl gwestiynau ar y ffurflen DLA: www.contact.org.uk/dla